# Cofnodion Bwrdd heb eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (Busnes)** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 20 Medi 2017 Lleoliad: Pafiliwn Llangollen, Llangollen |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Dr Madeleine Havard (Is-gadeirydd)<br>Nigel Reader (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg)<br>Andy Middleton (Cadeirydd Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Howard Davies<br>Zoë Henderson<br>Dr Emyr Roberts (Prif Weithredwr)<br>Dr Ruth Hall<br>Chris Blake<br>Karen Balmer |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:** | Gareth O'Shea (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De)<br>Catherine Smith (Cyfarwyddwr Gofal Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth)<br>Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)<br>Tim Jones (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd)<br>Kevin Ingram (Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)<br>Ashleigh Dunn (Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl)<br>Niall Reynolds (Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid) |
| **Mynychwyr Ychwanegol:** | Mike Whitley (Eitem 1)<br>Howard Davies (Eitem 2)<br>Sue Ginley (Eitem 2)<br>Mark Hughes (Eitem 2)<br>Richard Bellamy (Cyfarwyddwr Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri – Eitem 4)<br>Andrew Johnson (Eitem 6) |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Noemi Maria Donigiewicz<br>Richard Preece |

## Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

# Cofnodion Bwrdd heb eu Cadarnhau

## Ymddiheuriadau

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elizabeth Haywood a Syr Paul Williams.

## Datganiadau o Fuddiannau

2. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eraill.

## 1. Cyflwyniad ar gyfleoedd a heriau ardal leol

3. Rhoddodd Mike Whitley gyflwyniad ar brosiectau a mentrau yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae ystod eang o waith yn cael ei wneud. Trafododd y ddaearyddiaeth, natur ac effeithiau trefoli ar y dirwedd. Mae oddeutu miliwn o bobl yn byw o fewn taith car o awr i'r ardal, gan roi pwysau mawr ar yr adnoddau naturiol.

4. Mae prosiectau amrywiol a gyflwynir gan y tîm yn cynnwys:

- Gwiwerod coch - rhyddhau a monitro yng Nghoedwig Clocaenog. Coedwig Clocaenog - gwiwerod coch. Rhyddhau gwiwerod coch caeth er mwyn cael mwy o amrywiaeth genetig; byddant yn gwisgo coleri radio a bydd gwirfoddolwyr yn helpu i olrhain eu symudiadau am y pum mis cyntaf ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
- Bwriedir ailstocio 1800 hectar ar draws Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru eleni. Plannu mecanyddol - gwerth/cost effeithiol, ynghyd â phlannu â llaw.
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cynnal sawl ymgyrch ar y cyd â'r heddlu i fynd i'r afael â beicio modur oddi ar y ffyrdd.
- Erlyniadau diweddar: *Lancashire fuels 4U* - roeddent yn gweithredu safle a gweithrediadau anghyfreithlon a arweiniodd at ddau dân; gwnaethant dderbyn dirwy o £1.1m, gwaharddwyd y cyfarwyddwyr am saith mlynedd, ac adenillwyd £116k i dalu costau Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Rheoleiddio llifoedd i afon Dyfrdwy o ran rhyddhau dŵr, yn ogystal â monitro ymfudiad eog gyda chamera.
- Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – sawl prosiect megis hyfforddi athrawon, gweithio gyda'r gymuned, a Llwybr Chwarae Natur Nyth Hebog i wella addysg.
- Cynllun Llifogydd Llanelwy, prosiect sylweddol gwerth £5.4 miliwn sy'n cynnwys gosod pont newydd, glannau afon uchel, mynediad newydd ar hyd yr afon, plannu newydd (defnyddio cymysgedd o hadau sy'n addas i beillwyr) a mannau gwybodaeth i ymwelwyr. Dangoswyd fideo byr i'r Bwrdd.

Trafododd y Bwrdd y problemau a'r prosiectau ac roedd y prif themâu a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Problemau ynghylch datganoli; cadw cysylltiadau hanfodol â sefydliadau pwysig a mynd i'r afael â gwahaniaethau wrth i ni barhau i weithio gyda'n gilydd ac ar draws y ffin.
- Edrych ar sut rydym yn gwasgaru ymwelwyr er mwyn lleihau'r effaith ar safleoedd unigol a dosbarthu'r budd economaidd.
- Etifeddiaeth ddiwydiannol y gorffennol fel her – hen ardaloedd mwyngloddio, problemau gwenwynedd ac ansawdd dŵr posib, toreth o wybodaeth mewn strategaethau o'r gorffennol,
  rheoli afonydd, gweithio gyda phartneriaid lleol, lliniaru'r risg o lifogydd.
- Lle i gynyddu cynhwysiad lleol cymaint â phosibl ynghyd â chwilio am gyfleoedd menter.

5. Rhoddodd y Bwrdd ganmoliaeth i'r tîm am y paratoadau ac am faint y gwaith dyddiol dan sylw. Pwysleisiodd y Bwrdd fanteision integreiddio, a thanlinellu mor galonogol ydyw i glywed am y newid yn y system addysg a'r gwaith i gynnwys athrawon a myfyrwyr. Cafodd arweinyddiaeth ragorol y tîm yn ogystal â'r cyflwyniad ei hun eu cydnabod hefyd.

## 2. Adrodd am ddangosyddion perfformiad: Cyfnod un CNC B B 40.17

6. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad gan dynnu sylw at y llwyddiannau a'r cyfleoedd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y crynodeb canlynol:

Coch –

- Nid oes unrhyw faterion coch (materion brys).

Oren –

- Clirio coed (750 hectar o goed). Problem ar hyn o bryd gyda llunio adroddiad; fodd bynnag, mae'r gwaith yn cael ei wneud yn ôl yr amserlen a dylai'r adroddiad fod ar gael y mis nesaf. Dywedwyd wrth y Bwrdd nad oedd unrhyw reswm dros gredu ein bod ar ein holau ni gyda'r targed hwn.
- Safleoedd dynodedig – rydym ar 23.5% yn hytrach na 25%; fodd bynnag, rydym yn hyderus y byddwn yn cyflawni'r targed dros y flwyddyn.
- Mae'r perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer pren yn cyrraedd y farchnad ar 92% o broffil llinell syth disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn.
- Y targed yw creu 230 hectar o gynefin - bwriedir creu 30 hectar o gynefin yn hwyrach yn y flwyddyn hon mewn perthynas â chynlluniau llifogydd. Nid yw 200 hectar bellach yn yr arfaeth oherwydd nid oedd yn bodloni'r gofynion perthnasol o ran ariannu.
- Mae'r rhaglen gwsmeriaid ychydig ar ei hôl, gan gynnwys arolygon mewnol ac allanol.
- Roedd mecanwaith newydd ar gyfer adrodd am ymateb i ddigwyddiadau wedi creu

rhai problemau dosbarthu.

- Y targed yw bod â 99% o asedau risg llifogydd uchel a rheoli risg arfordirol yn eu cyflwr targed – mae 98.0% yn eu cyflwr targed ar hyn o bryd.
- Pobl a Thimau - Oren yn gyffredinol, er yr ystyrir gwerthuso swyddi'n goch. Mae agweddau eraill ar y mesur megis ymgorffori'r Strategaeth Pobl a Thimau a chynnydd ynghylch Llesiant Iechyd a Diogelwch ar y trywydd cywir ac yn gadarnhaol.

Tynnwyd sylw at lwyddiannau a heriau:

- Gwaith prosiect gyda ffermwyr er mwyn atal llygredd amaethyddol.
- Cocos Afon Dyfrdwy - tymor llwyddiannus; y degfed flwyddyn ers sefydlu'r system drwyddedu sy'n galluogi rheoli cyfrifol.
- Gwarchodfa Natur Leol newydd – Morfa Berwig, Sir Gaerfyrddin, prosiect ar y cyd â'r awdurdod lleol.
- Erlynwyd ffermwr yn llwyddiannus am dorri coed yn anghyfreithlon – codwyd dirwy o £100k.
- Rhaglen rhyddhau llygod y dŵr – rhaglen ailstocio cynaliadwy, gweithrediad ar y cyd i achub 14,000 o bysgod yng Nghamlas y Pedwar Loc ar Ddeg.

Mae prosiectau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan ohonynt yn cynnwys:

- Partner mewn prosiect partneriaeth Coedwig Law Geltaidd a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a arweinir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
  LIFE – Prosiect cyforgorsydd, gwaith papur wedi'i lofnodi a'r cyllid wedi'i gymeradwyo, cynlluniau llifogydd, Llanelwy
- Cynlluniau llifogydd – Llanelwy, Crindau, Pontarddulais a'r Rhath

Trafododd y Bwrdd y prosiectau a'r adroddiad. Roedd y sylwadau'n cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Croesawyd y ffordd newydd o weithio; mae'n dangos ffordd newydd o gyfuno pethau.
- Gallai amcanion fod yn fwy cywir; fodd bynnag, mae'r crynodeb yn helpu.
- Mae rhai o'r agweddau'n ymddangos yn eithaf ailadroddus.
- Byddai cyflwyno cyflawniadau manwl a chywir a mwy o ffocws ar ganlyniadau, a'u symleiddio, o fudd.
- Byddai rhoi hyperddolenni i'r straeon allanol yn ddefnyddiol.
- Mae'r strwythur yn fwy clir ac yn dangos y cysylltiad nid yn unig â'r *hyn* rydym yn ei wneud, ond â *sut* rydym yn gwneud pethau.
- Mae angen mwy o wybodaeth ansoddol yn yr adroddiad.
- Dylai enghreifftiau gael eu darparu i ddangos y pwyntiau.
- Mae'r fformat ei hun yn ddarllenadwy iawn ac mae angen iddo barhau i fod yn gytbwys a pheidio â bod yn rhy hir.

- Gallai partneriaethau gael eu hamlinellu'n fwy clir yn y ddogfen.

7. Byddwn yn ystyried archwaeth risg ymhellach ar y cyd â'r Strategaeth Rheoli Risg.

8. Cafwyd pryder nad oeddem yn bodloni'n targed o ran creu cynefinoedd; cytunwyd adolygu'r mesur hwn ac ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y sefydliad.

***Pwynt gweithredu - Adolygu'r mesur 'Creu Cynefinoedd'.***

9. Cytunwyd i adolygu allbynnau'r Adroddiad Perfformiad ynghyd â'r Cynllun Corfforaethol newydd yng nghyfarfod mis Tachwedd.
   Rhoddir amser ar gyfer awgrymiadau yng nghyfarfod mis Tachwedd er mwyn canolbwyntio ar y prif faterion a gwirio bod y Cynllun Corfforaethol yn gywir.

***Pwynt gweithredu – Eitem i'w hychwanegu at agenda mis Tachwedd***

10. Byddai cyfarfod noddi gydag Uwch-ymgynghorwyr y Llywodraeth o fudd. Byddai dod i'r arfer o ddangos yr wybodaeth hon yn y sefydliad (yn fewnol) hefyd o fudd. Yna bydd hyn yn gyrru trafodaethau da yn y sefydliad, a bydd gyrru trafodaethau o'r fath a bod yn berchen arnynt yn hanfodol wrth fod o fudd i Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gyfanrwydd.

11. Yn ddarostyngedig i'r sylwadau a wnaed, cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad a chytunwyd y gallai gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Teimlid hefyd y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r adroddiad yn fwy eang ar draws y sefydliad er mwyn cael perchnogaeth lawn.

12. Cytunwyd i gysylltu'r adroddiad â'r cyflwyniad 'materion lleol' mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
    Byddai'n cael ei ddefnyddio yn y ffordd honno eto.

***Pwynt gweithredu – Eitem perfformiad mewn cyfarfodydd yn y dyfodol i gysylltu ag enghreifftiau byd go iawn o'r lleoliad lle y cynhelir cyfarfod y Bwrdd.***

---

## 3. Papur Diweddariad ar Gyllid: CNC B B 41.17

13. Cyflwynodd Kevin Ingram y Papur Diweddariad ar Gyllid, a oedd yn cynnwys gwariant hyd yn hyn yn erbyn y gyllideb a manylion taliadau arbennig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

***Pwynt gweithredu – Yr holl bapurau sydd angen eu cymeradwyo gan Lywodraeth***

***Cymru i gael eu cyflwyno gan gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, er mwyn iddynt graffu arnynt cyn eu hanfon at Lywodraeth Cymru.***

14. Yn ystod y drafodaeth, gofynnodd y Bwrdd am fwy o fanylion ynglŷn â'r cyllid ychwanegol a ddarperir ar gyfer adferiad cloddfeydd metel, a'r ddarpariaeth ar gyfer mesurau diogelwch cronfeydd dŵr.

***I- Gellid briffio'r Bwrdd ar ddyfroedd cloddfeydd ac ar y gydymffurfiaeth o ran diogelwch cronfeydd dŵr***
***Pwynt gweithredu - Darparu sesiwn friffio i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyllid ar gyfer adferiad cloddfeydd metel a'r ddarpariaeth ar gyfer mesurau diogelwch cronfeydd dŵr.***

15. Cytunodd y Bwrdd hefyd y byddai'n briodol adolygu'r Cynllun Dirprwyo Ariannol.

***Pwynt gweithredu – Y Cynllun Dirprwyo Ariannol i gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.***

---

## 4. Cyflwyniad gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar flaenoriaethau yng Nghymru

16. Gwnaeth Richard Bellamy, Cyfarwyddwr Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri (y Gronfa), ddiolch i'r Bwrdd am y cyfle i ddod i'r cyfarfod, ac yna rhoddodd gyflwyniad ar waith y Gronfa yng Nghymru.

17. Mae cwmpas y cyllid yn eang:
- Rhywogaethau ac amrywiaeth
- Cynefinoedd, mannau gwyrdd a pharciau
- Dealltwriaeth ddaearegol
- Ers 1994, mae'r Gronfa wedi dyfarnu oddeutu £400m i dros 3,000 o brosiectau, gan ganolbwyntio ar dreftadaeth naturiol y DU.

18. Dyma rai o'r prosiectau a ariannwyd:

- Gwella ansawdd cynefinoedd Lleiniau clustogi, eu gwneud yn fwy a chanolbwyntio ar gysylltedd
- Rhywogaethau – angen ymyrraeth ar gyfer y rhai sydd â dyfodol bregus
- Strategaethau bioamrywiaeth ehangach
- Ystyried ehangu cynefinoedd yn hytrach na chanolbwyntio ar rywogaethau

- Prosiect cregyn gleision dŵr croyw
  Trafododd Richard Bellamy amrediad eang o gronfeydd ariannol, llawer ohonynt yn bosibiliadau hygyrch iawn o ran cael grantiau a chyda phenderfyniadau cyflym ynghylch arian yn cael eu gwneud.

19. Cododd Richard y cyfleoedd a gynigir gan y Cynllun Partneriaeth Tirlun, a byddai croeso penodol ar gyfer prosiectau a gyflwynir gan Gymru. Cydnabu fod y cyflwyniad yn cynnig cyfle gwych ar gyfer camau dilynol. Canmolwyd cyllid y Gronfa gan aelodau'r Bwrdd am ganiatáu ymgysylltiad cymunedol cryf.

20. Gwnaeth aelodau'r Bwrdd amlinellu'r cysylltiad agos rhwng y Gronfa a Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r ffaith bod llawer o debygrwydd rhwng ein hagendâu.

21. Nododd y Bwrdd mai pobl yn chwarae'r loteri sydd wedi gwneud y Gronfa yn bosibl, felly mae'n bwysig tynnu sylw at yr achosion da sy'n elwa o hyn a'u cydnabod.

22. Mae'n bwysig cofio y gall natur anghysbell rhai ardaloedd achosi diffyg ceisiadau wrth edrych ar ymdrin â thirwedd a threftadaeth naturiol; gellid mynd i'r afael â hyn drwy weithio'n fwy agos gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyda eu cymorth.

23. Trafododd y Bwrdd y gwaith o edrych ar brosiectau amrywiol, a blaenoriaethau cilyddol, yn ogystal â rhoi sylw i faterion strategol a chyfleoedd partneriaeth gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri.

24. Nodwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gymwys i gael cyllid gan y Gronfa.

25. Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i Richard am y cyflwyniad hynod ddiddorol a defnyddiol.

## 5. Adroddiadau – (20 munud) adran graffu a llywodraethu

**Papur: Adroddiad y Cadeirydd – Diane McCrea (papur: CNC B B 42.17)**

26. Roedd y bwrdd o'r farn bod stondin Cyfoeth Naturiol Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac roeddent yn dymuno diolch i'r rhai a oedd ynghlwm, yn enwedig Meinir Wigley. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu casglu cyn sioe'r flwyddyn nesaf.

**Papur: Gweithgareddau Aelodau'r Bwrdd – Diane McCrea (papur: CNC B B 43.17)**

27. Rhoddodd Zoe Henderson ddiweddariad i'r Bwrdd ar gamau gweithredu tuag at fynd i'r afael â llygredd amaethyddol – cyfarfod ardderchog yr wythnos diwethaf, gyda chyfle i weld y bartneriaeth rhwng Cyswllt Ffermio a Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd cynllun cyfathrebu cyflawn yn cael ei greu er mwyn cyhoeddi'r gwaith hwn a chodi

ymwybyddiaeth ohono, ac amlinellu'r datrysiadau i broblemau sydd wedi'u canfod drwy'r dull partneriaeth hwn.

28. Mae Andy Middleton wedi cyfarfod â John Davies, Dirprwy-lywydd NFU Cymru a Kirsty Williams, Aelod Cynulliad – diben y cyfarfod oedd pontio'r bylchau a chysylltu addysg a busnes yn y sector amaethyddol.

**Papur: Adroddiad y Prif Weithredwr – Emyr Roberts (papur: CNC B B 44.17)**

29. Nododd y Bwrdd fod Dave Cavell yn ymddeol, a diolchwyd iddo am ei waith caled. Sarah Asbrey sy'n cymryd lle Dave fel Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol; gwnaeth y Bwrdd ei llongyfarch ar ei phenodiad.

Awgrymodd y Bwrdd y byddai'n syniad da cwrdd â Sarah mewn cyfarfod yn y dyfodol, a gweld aelodau o'r Tîm Cyfreithiol ac eraill mewn meysydd megis Archwilio a Llywodraethu.

## 6. Cofnodion a materion sy'n codi, Pwyllgorau, Cofnodion a materion sy'n codi

30. Gwnaeth y cadeirydd ddiolch i Noemi Donigiewicz a phawb a oedd ynghlwm â'r gwaith o ofalu am yr Ysgrifenyddiaeth yn ystod y sefyllfa bresennol, a dymunwyd gwellhad buan i Geri Mills.

**– Cadarnhau Cofnodion Busnes (Gorffennaf 2017)**

31. Ymateb i ymgynghoriad SMNR **–**

5.14 (yn y cyfarfod datblygu)

**– Adolygiad o’r Cofnod o Bwyntiau Gweithredu Busnes (Gorffennaf 2017)**

32. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Tîm Gweithredol edrych ar y cofnod ac ystyried diweddariadau a materion nad ydynt wedi eu datrys.

- **Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth– Emyr Roberts (yn absenoldeb Syr Paul Williams)**

33. Cofnodion Mehefin i'w cadarnhau – cytunwyd.

34. Cofnodion Gorffennaf i'w cadarnhau – cytunwyd.

35. Arolwg Pobl – mae Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth wedi cytuno ar yr argymhelliad ynghylch disodli'r arolwg staff blaenorol – a oedd yn bennaf yn seiliedig ar arolwg y gwasanaeth sifil – â Sense Maker ar gyfer eleni. Cafodd ei ddatblygu gyda'r Grŵp Pobl a Thimau a bydd yr offeryn hwn yn rhoi mewnwelediad gwell i

faterion ac ymatebion gan staff. Defnyddir offeryn Sense Maker ledled Cymru, felly, gallai hyn fod o fantais wrth i ni edrych ar ein canlyniadau.

Bydd Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth yn edrych ar wobrau gwasanaeth hir fel rhan o'r adolygiad ehangach o wobrau/bonysau cydnabyddiaeth staff.

- **Adroddiad Blynyddol Llesiant, Iechyd a Diogelwch (Papur: CNC B B 46.17)**

36. Diolchodd i dîm Andrew Johnson. Dyma'r ail adroddiad ers i'r strategaeth gael ei gweithredu. Mae nifer o welliannau wedi'u gwneud, a sawl cam gweithredu allweddol wedi'i weithredu ers 2015/16. Ar ddiwedd y flwyddyn galendr bydd papur ar fuddion ac ymddygiadau cyflogeion yn cael ei roi gerbron y Bwrdd.

- Mae angen codi ymwybyddiaeth a nodi esiamplau o ymddygiad yn ogystal â geiriau rydym yn eu defnyddio, ac a ydym yn cadw at ein hegwyddorion.

***Pwynt Gweithredu: Cytunodd Ashleigh a Ceri i roi diweddariad i'r Bwrdd ar BEHIVE, yn dilyn ei raglen beilot gychwynnol gyda thimau Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (ar gyfer mis Tachwedd), a dod â hyrwyddwyr er mwyn siarad am agenda'r digwyddiad.***

- **Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch (Papur: CNC B B 45.17)**

37. Nodwyd y gwelliannau parhaus i'r broses adrodd.

38. Yn y dyfodol canolbwyntir ar ymddygiad a gwella systemau a chymaryddion.

39. Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth – Cylch Cyfrifoldeb Diwygiedig (Papur: CNC B B 48.17) – cymeradwywyd

- **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – Nigel Reader**

40. Diweddariad o gyfarfod mis Gorffennaf (ar lafar), gwelir y diweddariad yn Atodiad 1.

- Cafodd yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon eu cymeradwyo.
- Mae penodiad Karen Balmer fel y cadeirydd newydd wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.
- Gofynnodd Nigel i'r Bwrdd dderbyn y cofnodion yn ffurfiol.
- Adroddiad Diwedd Blwyddyn Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Papur CNC: B B 49.17)

41. Gwnaeth Nigel ddiolch i Zoe a Madeleine am gamu i'r adwy er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei gworwm.

42. Cafwyd adborth cadarnhaol o'r adolygiad effeithiolrwydd a dysgwyd gwersi. Nodwyd rheoli risgiau fel maes sydd angen ei wella. Mae'r aelodau a'r Tîm Gweithredol yn rhoi marc i'w gilydd, a daethpwyd i'r casgliad bod y pwyllgor yn effeithiol. Y meysydd yr oedd angen eu gwella oedd rheoli'r risgiau.

43. Cymeradwywyd y cylch gorchwyl diwygiedig yn ffurfiol gan y Bwrdd.

44. Gwnaeth yr adolygiad o dreuliau aelodau'r Bwrdd ddangos bod yr aelodau'n gwneud yr hyn sydd angen iddynt ei wneud.

45. Nododd y Cadeirydd gyfraniad arbennig Nigel, a gwnaeth ddiolch iddo'n ffurfiol am ei waith caled a'i ymdrech.

46. Trosglwyddwyd neges gan y Cadeirydd bod y Gweinidog yn diolch i Nigel yn ffurfiol.

47. Nododd y Bwrdd y byddai'n haws cyflwyno ffurflen o dreuliau gan ddefnyddio Excel.

***Pwynt gweithredu – Ysgrifenyddiaeth y bwrdd i greu ffurflen hawlio treuliau ar Excel.***

- **Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur – Madeleine Havard**

48. Cafodd agenda cyfarfod fwyaf diweddar y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur ei dosbarthu er gwybodaeth.
    - Mae'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur yn penodi tri aelod annibynnol newydd ar hyn o bryd.
    - Mae strategaeth newydd wedi'i chreu.
    - Mae DEFRA yn wynebu toriadau enfawr.
    - Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 a 29 Tachwedd yng Nghaerdydd.

- **Grŵp Cynghori Rheoli Perygl Llifogydd – Madeleine Havard**

49. Diweddariad o gyfarfod mis Gorffennaf (rhoddwyd ar lafar yn ystod cyfarfod diwethaf y Bwrdd), a chadarnhau'r cofnodion.
50. Mae'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd wedi'i sefydlu a bydd galw am aelodau.

- **Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig** – Dim angen diweddariad oherwydd nid yw'r Pwyllgor wedi cyfarfod.

- **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – diweddariad yr is-grŵp**

51. Gwnaeth yr is-grŵp ddiolch i staff am y gwaith caled a wnaed ganddynt.
52. Bydd templed yn ein galluogi i edrych ar y materion a'r amcanion. Mae angen i'r amcanion fod yn eglur a gweddu i flaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru.
53. Roedd adroddiad Ceredigion yn wych, a dylid adrodd am y wybodaeth i'r tîm.
54. Mae angen i uchelgais y Bwrdd a'r staff fod yn realistig ac yn gytbwys. Dylai'r targedau fod yn ymarferol ac yn realistig.
55. Dylid rhoi pwyslais ar yr achosion yn hytrach na'r symptomau a rhoi sylw iddynt. Dylid ymdrin â phroblemau o ran graddfa yn effeithiol, ac mae ymgysylltu â'r sector cyhoeddus yn hynod bwysig.
56. Bydd chwe chyfarfod rhwng nawr a mis Rhagfyr; tua diwedd y broses honno bydd dogfen ffurfiol yn barod i'w chymeradwyo gan y Bwrdd.

***Pwynt gweithredu – ystyried cyfarfod rhwng Ruth Tipping a'r Bwrdd er mwyn trafod gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.***

## 7. Unrhyw Fater Arall

Gwnaeth y Bwrdd ddiolch yn ffurfiol i Emyr Roberts am ei waith caled oherwydd mai dyma oedd ei gyfarfod Bwrdd olaf.
Cynllunnir y cyfarfod cyhoeddus nesaf ar gyfer dechrau 2018.